TV LICENSING
TRWYDDEDU TELEDU
www.tvlicensing.co.uk

# YnGryno

Ionawr 2012

2 Trwyddedu Teledu ar y ffordd

3 Rhestr o esgusodion mwyaf anghredadwy y llynedd

4 Holwch Drwyddedu Teledu

## Ymgyrch yn annog rhai dros 75 oed i wneud cais am eu trwydded deledu am ddim

**Mae Trwyddedu Teledu ac Age UK wedi lansio ymgyrch wybodaeth sy'n annog unrhyw un 75 oed a hŷn i wneud yn siwr eu bod yn hawlio eu Trwydded Deledu am ddim. Mae'r ymgyrch hefyd yn atgoffa'r rhai hynny dros 74 oed ei bod yn bosibl iddynt fod yn gymwys i gael trwydded tymor byr hyd at eu pen-blwydd yn 75 oed. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda sefydliadau cymunedau lleol a'r cyfryngau i atgoffa pobl hŷn, eu perthnasau a'u ffrindiau am sut i wneud cais.**

Wrth i ni ddechrau'r flwyddyn newydd, mae Trwyddedu Teledu ac Age UK yn atgoffa unrhyw un 75 oed neu'n hŷn bod ganddynt hawl i Drwydded Deledu am ddim ar gyfer eu prif gyfeiriad. Mae bron 4 miliwn o bobl ledled y DU eisoes yn mwynhau manteision y consesiwn, ac mae bron 70,000 arall fydd yn dathlu eu penblwyddi'n 75 oed yn ystod y 12 mis nesaf yn elwa o Drwydded Deledu tymor byr ar hyn o bryd. Mae Trwyddedu Teledu ac Age UK yn awyddus i wneud yn siwr bod pawb sy'n gymwys i dderbyn consesiwn yn manteisio ar hynny, yn enwedig yn dilyn adeg y Nadolig pan mae arian yn gallu bod yn brin.

Os yw eich sefydliad chi'n gweithio gyda phobl 75 oed a hŷn gwnewch yn siwr eu bod yn ymwybodol o'r consesiynau allai fod ar gael iddynt. Efallai y byddai'n werth hysbysu cleientiaid eraill, os ydynt yn byw gyda rhywun sydd yn 75 oed neu'n hŷn, bydd trwydded am ddim yn cynnwys yr aelwyd gyfan nid dim ond y nhw. Os yw rhywun yn 74 oed ar hyn o bryd ac mae eu trwydded yn dod i ben cyn eu pen-blwydd yn 75 oed gallant hefyd wneud cais am drwydded tymor byr ar gyfer y cyfnod sy'n arwain ato.

Mae Trwyddedu Teledu wedi bod yn gweithio gyda grwpiau cyngor i bobl hŷn ledled y DU i wneud yn siwr bod unrhyw un sy'n gymwys yn ymwybodol o'r Drwydded Deledu am ddim i rai dros 75 oed. Am ragor o wybodaeth ynglŷn â sut gall Age UK eich helpu chi, ewch i www.ageuk.org.uk

Dywedodd Michelle Mitchell, cyfarwyddwr elusen ar gyfer Age UK:

"Mae costau byw'n parhau i gynyddu ac yn effeithio ar bawb, ond yn enwedig pobl hŷn sy'n byw ar incwm bach penodol. Mae'r drwydded am ddim i rai dros 75 oed yn gonsesiwn gwerthfawr sy'n cynnig cyfle i bobl hŷn gael y cyfle i roi ychydig tuag at filiau eraill. Byddem yn annog y bobl hynny sydd eisoes yn 75 oed a heb hawlio eu trwydded am ddim i gysylltu â Thrwyddedu Teledu. Dylai'r rhai 74 oed hefyd gysylltu fel y gellir trefnu trwydded tymor byr."

Mae gwneud cais am drwydded am ddim yn hawdd ac ar ôl i chi wneud hyn unwaith bydd Trwyddedu Teledu yn adnewyddu eich trwydded yn awtomatig yn flynyddol am dair blynedd, gan dorri lawr ar waith papur dianghenraid.

Mae'n gyflym ac yn hawdd gwneud cais naill ai ar-lein yn www.tvlicensing.co.uk/over75 neu drwy ffonio 0300 790 6073.

Dylai cleientiaid hefyd fod yn ymwybodol o rai newidiadau a wnaed yn ddiweddar i'r broses adnewyddu Debyd Uniongyrchol blynyddol. Mae'r rhai sy'n talu drwy Ddebyd Uniongyrchol yn derbyn un rhybudd adnewyddu yn awr pan fydd eu trwydded bresennol yn dod i ben, yn amlinellu eu cynllun talu hyd 2016-17. Does dim angen cysylltu â Thrwyddedu Teledu oni bai bod newid o ran cyfeiriad, manylion banc neu eu bod yn gymwys i dderbyn trwydded tymor byr neu drwydded am ddim ar ôl eu pen-blwydd yn 74 oed neu 75 oed.

**Rydym wedi bod yn anfon copïau o Yn Gryno, sef y cylchlythyr Trwyddedu Teledu rydych yn ei ddarllen yn awr, at filoedd o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyngor am dros wyth mlynedd.**

Rydym o hyd yn chwilio am ffyrdd i fod yn fwy gwyrdd, felly rydym wedi newid ein cylchlythyr yn awr i fod yn gyfan gwbl ar-lein. Dyma'r rhifyn cyntaf y byddwch wedi ei dderbyn gennym yn eich blwch e-bost yn hytrach na'ch blwch llythyron.

O hyn ymlaen, byddwn yn anfon neges e-bost yn cynnwys dolen syml i'r lleoliad ar-lein ar gyfer gweld a lawrlwytho'r cylchlythyr. Mae'r Yn Gryno digidol newydd nid yn unig yn amgylcheddol gyfeillgar, mae hefyd yn fwy rhyngweithiol. Bydd ein rhifynnau ar-lein yn eich galluogi i gael mynediad at wybodaeth am sefydliadau, neu ddod i gysylltiad â ni â dim ond un clic.

Mae gennym fas data da o gyfeiriadau e-bost yn barod ond hoffem wneud yn siwr eich bod yn parhau i dderbyn Yn Gryno. Os hoffech i ni eich ychwanegu at ein rhestr gyswllt, anfonwch neges e-bost at campaignoffice@tvlicensing.info a rhowch 'Yn Gryno' yn y llinell testun. Os oes pobl eraill yn eich tîm chi, neu mewn swyddfeydd eraill, a ddylai dderbyn Yn Gryno yn eich tyb chi anfonwch eu manylion atom ac ychwanegwn eu henwau at ein rhestr ddosbarthu.

Rydym ni ar twitter hefyd, ac rydym yn trydar yn rheolaidd am y digwyddiadau rydym yn eu mynychu, gweithdai rydym yn eu darparu, a dyddiadau eraill sydd gennym yn ein dyddiadur. Hefyd, gallwch weld beth sy'n digwydd yn eich ardal leol drwy ein dilyn ni ar www.twitter.com/tvl_info

>

# Trwyddedu Teledu ar y ffordd

Mae datblygu perthnasau parhaol gyda grwpiau cymunedol yn ganolog i waith tîm Cysylltiadau Cymunedol Trwyddedu Teledu. Mae Money Advice Scotland yn un o'r sefydliadau hynny sydd wedi gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn y gogledd. Dyma'r gair diweddaraf gan eu Prif Weithredwr, Yvonne MacDermid:

## Pa ran mae Money Advice Scotland yn ei chwarae?

Money Advice Scotland yw'r sefydliad mantell cenedlaethol sy'n hyrwyddo cyngor annibynnol a ddiduedd yn gyfrinachol ac am ddim ynglŷn â dyled a chynhwysiad ariannol. Ni yw'r sefydliad proffesiynol ar gyfer y sector yn darparu hyfforddiant, ymgynghoriaeth, cynadleddau a seminarau. Hefyd, mae gennym aelodau o'r diwydiannau credyd a bancio, casglu dyledion ac ymarferwyr methdaliad. Rydym yn gweithio gyda llywodraeth yr Alban ac yn anelu at lywio polisi cymdeithasol o ran materion dyledion.

## Pa faterion ariannol sydd gan eich cleientiaid?

Mae cleientiaid ein haelodau yn trafod ystod o wahanol faterion - gan gynnwys popeth o ôl-daliadau Treth y Cyngor neu Drwydded Deledu i ddyledion cardiau credyd. Mae pobl yn cael amser anodd oherwydd y dirwasgiad ac yn anffodus mae rhai wedi cael eu hunain naill ai'n gweithio oriau llai neu'n wynebu diweithdra. Hefyd, mae llawer o bobl sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd yn ei chael hi'n anoddach ac anoddach wrth i gostau gynyddu o ran bwydydd ac eitemau pob dydd a thanwydd.

## Sut ydych wedi gweithio gyda Thrwyddedu Teledu yn y gorffennol? Pa mor bwysig yw hi i Drwyddedu Teledu gael ystod o ffyrdd gwahanol a rhwydd i dalu a chael consesiynau?

Mae gennym gysylltiad parhaol gyda Thrwyddedu Teledu, er dros 15 mlynedd o bosibl. Rydym wedi gweld y manteision gwirioneddol o gychwyn deialog agored a chyfathrebu gyda'r sefydliad, a sut y gall hynny arwain at newid o ran dulliau talu a chadw rhai allan o'r llysoedd.

Mae cynnig opsiynau talu hyblyg yn hynod bwysig. Mae nifer sylweddol o Albanwyr heb fynediad at wasanaethau ariannol traddodiadol fel cyfrifon banc, felly mae'n hanfodol bod opsiynau ar gael fel Cerdyn Talu Trwyddedu Teledu. Sawl mlynedd yn ôl roeddem yn ymwneud â chynghori'r cynllun Cash Easy Entry (sef y Cerdyn Taliad bellach) ac mae'n gam cadarnhaol bod y dewis hwn ar gael i bawb yn awr.

Os gallwch gynnig cymaint o ffyrdd â phosibl i bobl dalu sy'n siwtio eu ffordd o fyw, wedyn mae'n sefyllfa lle mae pawb yn llwyddo. Bydd ymgynghorwyr ariannol bob amser yn sicrhau bod y Drwydded Deledu yn cael ei chynnwys ar daflen incwm a gwariant, a bydd yn edrych bob amser ar y ffordd hawddaf i gleient ei thalu.

## Oes gan Yr Alban ei hunaniaeth ei hun pan ddaw i faterion o ran cyngor ariannol? Ydy hi'n bwysig bod cynrychiolaeth leol gan Drwyddedu Teledu?

Oes, mae gan Yr Alban ei hunaniaeth ei hun. Mae gennym system gyfreithiol ar wahân i Gymru a Lloegr, ac mae gorfodaeth dyledion yn Yr Alban yn wahanol. Hefyd, mae gennym gymunedau gwledig iawn yn ogystal ag ynysoedd yn yr Alban sy'n golygu bod mynediad at wasanaethau yn anodd ar adegau. Dyma pam mae mor bwysig bod dulliau talu yn hyblyg ac yn gynhwysol.

Mae'n hollol hanfodol bod cynrychiolaeth leol gan Drwyddedu Teledu yn yr Alban, gan ei bod yn bwysig bod y sefydliad yn ymwybodol o bopeth sy'n digwydd ym maes dyledion, ac ar lefel bob dydd.

## Allwch chi roi eich gwybodaeth gyswllt allweddol ar gyfer MAS?

Cyfeiriad ein gwefan yw www.moneyadvicescotland.org.uk a'r prif rif ffôn yw 0141 572 0237.

# Dim Trwydded Deledu? Rhestr o esgusodion mwyaf anghredadwy y llynedd

## Ar y brig – cyfathrach gyda'r postmon a pharot sy'n gwylio'r teledu

Mae wedi bod yn flwyddyn dda iawn o ran hanesion hurt pan ddaw'n fater o esgusodion anghredadwy a gafwyd dros y 12 mis diwethaf.

Yn ogystal â'r ymdrechion arferol i fwrw'r bai ar berthnasau, cynigiwyd anifeiliaid anwes penderfynol a throeon cariadus fel esgusodion i swyddogion ymholiadau Trwyddedu Teledu y llynedd.

**Mae'r tri rheswm ar flaen y rhestr o esgusodion a roddwyd gan rai oedd yn osgoi costau trwyddedi yn 2011 yn cynnwys:**

- Postmon cariadus: "Ers i mi gael cyfathrach gyda'r postmon nid wyf wedi derbyn fy llythyron ac felly ni chefais fy nodyn atgoffa Trwydded Deledu."
- Parot paranoid: "Does neb yn edrych ar y teledu ar wahân i'r parot. Mae'n ei dawelu ac yn ei atal rhag rhwygo ei blu allan."
- Plant â dwylo blewog: "Es i'r PayPoint i dalu am fy nhrwydded, ond roedd rhaid i mi adael ar hast cyn cael y cyfle i dalu oherwydd bod y plant yn dwyn losin."

Does dim gwahaniaeth pa mor ddyfeisgar mae pobl o ran esgusodion, mae gwylio neu recordio rhaglenni teledu wrth iddynt gael eu darlledu yn erbyn y gyfraith os nad oes gennych drwydded.

Mae bob amser yn well gennym fod pobl yn talu yn hytrach na wynebu erlyniad a dirwy, ac felly rydym yn annog sefydliadau cynghori i helpu sicrhau bod pobl yn ymwybodol pan mae angen trwydded arnynt a pha ffordd o dalu fyddai fwyaf addas iddynt. Os yw eich sefydliad chi'n gweithio gyda phobl sydd â chwestiynau ynglŷn â Thrwyddedu Teledu ac angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r tîm Cysylltiadau Trwyddedu Teledu ar 020 7544 3116 neu drwy campaignoffice@tvlicensing.info. Bydd y tîm yn falch i ddarparu cyflwyniadau hyfforddiant, taflenni a deunyddiau eraill i'ch helpu i gynghori cleientiaid.

Mae'r tîm Cysylltiadau Cymunedol Trwyddedu Teledu yn gweithio gydag ystod o sefydliadau cyngor ariannol yn genedlaethol ac yn lleol ar draws y DU.

Gofynnodd David Hawkes, Cydlynydd Cyngor Ariannol Cenedlaethol gyda Chyngor y DU:

"Dylid trin Trwydded Deledu fel gwariant hanfodol wrth drefnu cyllideb gartref. Gallech dderbyn dirwy Llys Ynadon [neu ddirwy gan lysoedd Ynadon Heddwch] am fethu â chael trwydded. Rydym yn ymwybodol bod rhai yn ei chael hi'n anodd i reoli eu harian ac felly mae'n bwysig bod ganddynt fynediad at gyngor annibynnol am ddim ynglŷn â sut i drefnu eu harian a rhannu cost biliau'r cartref. Mae Cyngor y DU yn gweithio gyda Thrwyddedu Teledu i godi ymwybyddiaeth o ran y gwahanol ffyrdd y gallwch eu defnyddio i dalu am eich trwydded, gan gynnwys dros y ffôn, ar-lein neu mewn taliadau wythnosol mewn allanfeydd PayPoint."

Er mwyn helpu'r rhai hynny a allai ei chael hi'n anodd talu am y drwydded ar unwaith, rydym yn cynnig amrywiaeth o ffyrdd i dalu - a gellir trefnu pob un o'r dulliau hyn yn gyflym ac yn hawdd ar-lein gyda www.tvlicensing.co.uk neu drwy ffonio 0300 790 6112.

# Holwch Drwyddedu Teledu

Mae tîm Cysylltiadau Cymunedol Trwyddedu Teledu yn siarad â channoedd o sefydliadau pob blwyddyn er mwyn helpu sicrhau bod pobl yn deall pryd mae angen trwydded a sut i dalu. Rydym yn mynychu cynadleddau'n aml, yn darparu gweithdai, ac yn cynnal sesiynau holi ac ateb.

Fel rhan o erthygl reolaidd, rydym yn ateb y cwestiynau rydym yn eu cael eu gofyn yn aml gan ymgynghorwyr. Oes gennych chi gwestiwn sydd angen ei ateb? Anfonwch neges e-bost atom ni yn campaignoffice@tvlicensing.info neu ffoniwch ni ar 020 7544 3116.

**C: Oes angen trwydded ar rywun sy'n gwylio'r teledu ar liniadur?**

Mae angen trwydded ar unrhyw un sy'n gwylio rhaglenni wrth iddynt gael eu darlledu ar y teledu, ond mae'n bwysig cofio mai dim ond 0.2% o'r boblogaeth sy'n dewis gwylio'r teledu ar-lein yn unig. Bydd y mwyafrif llethol yn gwylio ar set deledu ac os oes ganddynt drwydded gartref bydd hyn yn cynnwys unrhyw wylio ar-lein yn y cartref.

**C: Ydy hi'n wir fod rhywun ond yn cael trwydded am 11 mis er eu bod yn talu am 12 mis?**

Gwneir y gwaith gweinyddol a dosberthir trwyddedau ar sail fisol. Er enghraifft, os rhoddir y drwydded ar 15 Tachwedd 2011 bydd yn dod i ben ar 31 Hydref 2012. Fel rheol bydd hyn ond yn digwydd pan rydych yn prynu trwydded am y tro cyntaf. Gyda 25 miliwn o Drwyddedau Teledu mewn grym ar hyn o bryd, byddai eu rheoli ar ddiwrnod eu cyhoeddi yn gyntaf yn gymhleth iawn ac ni fyddem yn cynnig gwerth am arian ar gyfer y rhai sy'n talu costau trwyddedau.

**C: Mae un o'n cleientiaid yn ddall ac nid oes teledu ganddi. Mae'n gwrando ar y teledu drwy ei hoffer Hi-Fi. Oes angen trwydded arni?**

Os nad 'derbynnydd teledu' yw'r offer, h.y. offer sy'n gallu derbyn lluniau teledu, ni fydd angen trwydded arni. Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn gosod y diffiniadau cyfreithiol, ond os ydych mewn unrhyw amheuaeth cysylltwch â ni ar campaignoffice@tvlicensing.info

## Ffordd o Dalu Mae nifer o ffyrdd i dalu am Drwydded Deledu

### Debyd Uniongyrchol

Ffoniwch 0300 790 6063 i sefydlu taliad debyd uniongyrchol misol, chwarterol neu flynyddol. Debyd Uniongyrchol yw'r ffordd sy'n cael ei defnyddio gan y mwyafrif o gwsmeriaid yn awr ac mae bellach yn bosibl i'w sefydlu ar-lein drwy ymweld ag www.tvlicensing.co.uk/info

### Cerdyn Debyd a Chredyd

Ffoniwch 0300 790 6063 er mwyn talu â cherdyn debyd neu gredyd. Mae'r cyfleuster hwn yn derbyn taliad ystod o gardiau debyd gan gynnwys Maestro/Switch a Delta. Gallwch hefyd dalu ar-lein gyda www.tvlicensing.co.uk/info

### Drwy'r Post

Anfonwch siec daladwy i Drwyddedu Teledu at: Trwyddedu Teledu, Rhadbost BS6689, Bryste BS1 3YJ

### Dros y cownter

Gwnewch daliadau uniongyrchol yn un o fwy na 23,800 o allfeydd ledled y DU. Ewch i www.paypoint.co.uk/locator i ddod o hyd i'ch allfa agosaf. I ddarganfod sut i ddefnyddio PayPoint i wneud taliadau o dan gynllun talu arian parod, ffoniwch 0300 555 0300.

### Cerdyn Cynilo Trwyddedu Teledu

Cynlluniwyd y Cerdyn Cynilo Trwyddedu Teledu i helpu pobl i gynilo tuag at gost eu Trwydded Deledu nesaf mewn symiau bach a hylaw. Gall pobl wneud taliad ar unrhyw adeg, naill ai ar-lein, trwy neges destun, mewn unrhyw allfa PayPoint neu dros y ffôn. Ffoniwch 0300 555 3434 am fwy o wybodaeth.

### Rhifau defnyddiol

| | |
|---|---|
| Ymholiadau Debyd Uniongyrchol a Cherdyn Credyd | 0300 790 6063 |
| Rhybudd newid cyfeiriad | 0300 790 6065 |
| Ymholiadau cynllun talu arian parod | 0300 790 6078 |
| Ceisiadau am lenyddiaeth Trwyddedu Teledu | 0300 790 6022 |
| Cyfleuster Minicom | 0300 790 6050 |
| Ymholiadau dros 75 oed | 0300 790 6073 |
| Llinell Genedlaethol ar gyfer Dyledion/ National Debtline * | 0808 808 4000 |

* Gwasanaeth ymgynghorol allanol dros y ffôn yw National Debtline. Nid yw'n cael ei gynnal gan Drwyddedu Teledu

### Manylion cyswllt Trwyddedu Teledu

Trwyddedu Teledu, 6th Floor, 77 Kingsway, London WC2B 6SR Ffôn: 020 7544 3116 Ffacs: 020 7242 4202

## Eich Adborth Chi

Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r rhifyn hwn o Yn Gryno, ac mae croeso i chi gysylltu â ni gyda'ch sylwadau ar y cynnwys a'r cynllun. Dywedwch wrthym am y math o straeon Trwyddedu Teledu byddech yn eu cael yn ddefnyddiol ac yn ddiddorol, ac os gallwn wella ar bethau.

Gallwch gysylltu â ni ar 020 7544 3116, neu yn **campaignoffice@tvlicensing.info**

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.